

'Mae person wedi'i unioni trwy ffydd a gweithredoedd'.

Gwerthuswch y safbwynt hwn gan gyfeirio at Gristnogaeth.

'Dydy'r ddysgeidiaeth Islamaidd ar rôl dynion a menywod ddim yn hyrwyddo anghydraddoldebau.'

Gwerthuswch y safbwynt hwn.

Ateb 1

O safbwynt rhywun o'r tu allan, byddai hi'n bosibl dadlau bod Islam yn hyrwyddo anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod. Rôl draddodiadol dyn yw darparu ar gyfer y teulu a'i amddiffyn. Rôl y fenyw yw bod yn fam, magu plant, rheoli'r tŷ ac, addysgu'r plant yn ffyrdd Islam. Ond, mae Sura 2:228 yn dweud, 'mae ganddyn nhw (menywod) hawliau tebyg i rai (dynion) drostyn nhw, ac mae dynion radd yn uwch na nhw' ac mae rhai mewn Islam wedi defnyddio hyn i awgrymu bod gan ddynion elfen o awdurdod dros fenywod. Dywed Badawi, 'O ystyried cyfansoddiad ffisiolegol a seicolegol dyn a menyw, mae gan y ddau hawliau cyfartal ar ei gilydd, heblaw am un cyfrifoldeb, sef arwain. Mae hwn yn fater sy'n naturiol mewn unrhyw fywyd ar y cyd ac sy'n gyson â natur dyn'. Serch hynny mae'n ychwanegu, 'Quiwama (cynnal ac amddiffyn) yw'r radd hon. Mae hyn yn cyfeirio at y gwahaniaeth naturiol hwnnw rhwng y rhywiau sy'n golygu bod gan y rhyw wannaf hawl i gael ei hamddiffyn. Nid ydi o yn awgrymu rhagoriaeth neu fantais gerbron y gyfraith'. O ran y datganiad gellid dadlau bod hyn yn hyrwyddo anghydraddoldeb i ryw raddau.

Mae Badawi, sy'n draddodiadwr, yn cyfiawnhau ei ddealltwriaeth o rôl dynion a menywod mewn Islam gan ddweud ei fod yn llawer mwy datblygedig yn ei gyfnod na Christnogaeth ac Iddewiaeth. Mae'n dadlau bod llawer mwy o gyfyngiadau ar fenywod yn y ddwy grefydd hyn nag yn Islam a bod Muhammad, mewn cymhariaeth, wedi rhyddhau menywod. Boed hynny fel y bo, mae rôl dynion a menywod yn cael ei deall mewn ffyrdd gwahanol mewn Islam heddiw ac felly gellir herio hyn.

Dadl arall fyddai beirniadaeth ffeministaidd ar rôl dynion a menywod mewn Islam. Mae Idris Morar yn ysgrifennu am Haleh Afshar, y ffeminist cyfoes, 'Mae Haleh Afshar yn dadlau bod cyfraniad menywod wedi'i ddileu'n systematig o hanes gan ddynion. Mae Islamyddion modern yn edrych yn ôl ac yn gwadu syniadau modern, blaengar tra maen nhw'n ceisio ailennyn diddordeb mewn Islam'. Mae Saraji Zaid yn cefnogi hyn pan ddywed, 'Mae angen i ni roi stop ar bobl sy'n camddefnyddio crefydd Duw a (...) gwrthwynebu'r rhai a fyddai'n greulon wrth fenywod yn enw'r Qur'an a'r Sunnah'.

Ond, mae ffeminyddion fel hyn yn dadlau nad Islam sy'n tanseilio menywod ond yn hytrach y ffordd y mae bodau dynol yn dehongli ac yn cymhwyso dysgeidiaeth Islamaidd, a hynny wedi'i wyrdroi gan hoffterau a dylanwadau diwylliannol.

Mae Maqsood o'r un farn hefyd pan fydd hi'n dadlau 'Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno deall Islam fynd ati'n gyntaf i wahanu'r grefydd oddi wrth normau diwylliannol ac arddull cymdeithas' ac mae hi'n dyfynnu enghreifftiau o anffurfio organau benywod yn Affrica a phriodasau dan orfod yn Pakistan ac India fel enghreifftiau lle mai diwylliant ac nid Islam sy'n gorchymyn.

Er ei bod hi'n ymddangos ar lefel arwynebol fod llawer i gefnogi'r datganiad, dadl arall yw gwahaniaethu rôl oddi wrth statws. Dim ond oherwydd bod rôl naturiol rhywun yn wahanol, dydy hynny ddim yn awgrymu anghydraddoldeb. Ysgrifenna Saimah Ashraf, 'Un o egwyddorion sylfaenol Islam yw cydraddoldeb i bob bod dynol a chydraddoldeb yng ngolwg Duw. Dydy menywod ddim yn cael eu hystyried yn llai na dynion mewn agweddau ar grefydd a dydyn nhw ddim yn cael eu difrio yn unrhyw le yn y Qur'an'. Ei dadl hi yw bod gan ddynion a menywod yr un statws ysbrydol mewn Islam ac mae hi'n dadlau bod 'rhaid i'r ateb er mwyn cyflawni gwir ryddid, annibyniaeth, a hapusrwydd ddod o'r tu mewn i ddysgeidiaeth y Proffwyd, o ddyfnder y Qur'an, ac o gyfoeth traddodiad Islamaidd cyfoethog'.

At ei gilydd, mae enghreifftiau eglur lle mae'n bosibl gweld bod Islam yn hyrwyddo anghydraddoldeb yn y ffordd y mae'n cael ei harfer; ond, byddai llawer o Fwslimiaid yn amddiffyn y farn nad Islam sy'n hyrwyddo anghydraddoldeb ond dim ond y ffordd y mae'n cael ei chymhwyso mewn gwahanol gymdeithasau.

Adborth:

Mae hon yn drafodaeth eang ei chwmpas sy'n dangos dealltwriaeth o'r ddadl am rôl dynion a menywod mewn Islam. O blith y tri ateb, hwn yw'r gorau. Caiff y dadleuon eu trafod a'u hasesu yn hytrach na dim ond cael eu dweud. Mae llwybr rhesymu eglur drwodd i'r casgliad terfynol ynghylch y ffordd nad yw'r datganiad yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng Islam a'r ffordd y mae'n cael ei chymhwyso. Mae'r sylfaen wybodaeth wedi cael ei dewis yn rhesymol dda. Dydy hynny ddim yn golygu bod yr ateb yn berffaith. O bosib byddai trafodaeth o gwmpas geiriau'r ddadl (gwahaniaethau/anghydraddoldebau) gan gynnwys safbwyntiau diweddar wedi bod yn strwythur gwell. Hefyd gallai safbwyntiau newydd fel barn ffeministiaid eraill fod wedi cael eu cyflwyno.

Ateb 2

Mae bywyd teuluol yn hanfodol i Islam. O fewn y teulu mae arferion Islamaidd yn cael eu cryfhau. Mae dynion a menywod yn rhan o'r teulu ac mae gan y naill a'r llall rolau pwysig iawn. Mae eu rolau nhw'n wahanol ond maen nhw'n gydradd â'i gilydd mewn gwirionedd.

Rhyddhaodd Islam fenywod a dydy hi ddim yn hyrwyddo anghydraddoldeb mewn unrhyw ffordd. Yn ôl dysgeidiaeth Islamaidd, rôl draddodiadol dyn yw darparu ar gyfer y teulu a'i amddiffyn. Rôl y fenyw yw bod yn fam, magu plant, rheoli'r tŷ ac, addysgu'r plant yn ffyrdd Islam.

Mae'r fenyw Fwslimaidd yn cael cydraddoldeb ysbrydol a deallusol sylfaenol â dyn, ac mae hi'n cael ei hannog i ymarfer ei chrefydd ac i ddatblygu ei gallu deallusol drwy gydol ei bywyd a dydy hyn ddim yn hyrwyddo anghydraddoldeb. Dywed y Qur'an, 'ac mae ganddyn nhw (menywod) hawliau tebyg i rai (dynion) drostyn nhw, ac mae dynion radd yn uwch na nhw'.

Mewn perthnasoedd, mae dynion a menywod i fod i ymddwyn ac i wisgo'n syml ac i ddilyn cod moesoldeb caeth sy'n annog y ddau ryw i beidio â chymysgu â'i gilydd. Dydy hyn ddim yn hyrwyddo

anghydraddoldeb.

Dylai perthnasoedd priodasol fod yn seiliedig ar gariad a thosturi tuag at eich gilydd. Y dyn sy'n gyfrifol am gynnal y wraig a'r plant, ac mae hi i fod i roi'r parch iddo sy'n ddyledus i'r penteulu. Hi sy'n gyfrifol am ofalu am y cartref ac am hyfforddiant cynnar y plant. Mae hi'n cael bod yn berchen ar ei heiddo ei hun, rhedeg ei busnes ei hun ac etifeddu drwy ei hawl ei hun. Felly mae gan y ddau hawliau a rolau.

Felly, mae rolau dynion a menywod mewn Islam yn wahanol ond dydyn nhw ddim yn anghydradd. Dywed y Qur'an, 'mae dynion a menywod yn gydradd'.

Adborth:

Mae hwn yn ymdrech gwan i werthuso. Mae'n dechrau gydag ambell frawddeg amherthnasol am y teulu. Un ddadl yn unig sydd gan yr amser a does dim trafodaeth neu ymwybyddiaeth go iawn o unrhyw heriau i'r ddadl hon. Mae cyfeiriad at destun o'r Qur'an ond mae'n cael ei ddweud yn unig yn hytrach na'i ddatblygu'n rhan o ddadl ac efallai nad dyma'r un gorau i'w ddefnyddio! Mae ymdrech unochrog byr i ddod i gasgliad yn y llinell olaf. Ond eto nid yw'n cael ei ddatblygu. Mae'r dyfyniad o'r Qur'an yn anghywir.

Mae hwn yn ateb sgîl AA1 yn hytrach nag AA2. Mae'n cynnwys adrodd ambell ddadl ond nid yw'n pwysu a mesur cryfderau a gwendidau cymharol y dadleuon hynny.

Ateb 3

Wrth ddadlau yn erbyn y gosodiad, mae'r Qur'an yn rhoi tystiolaeth eglur fod Duw'n gweld bod menyw'n hollol gydradd â dyn o ran ei hawliau a'i chyfrifoldebau. Mae'r Qur'an yn dweud: 'Bydd pob enaid yn cael (ei ddal) yn ernes am ei weithredoedd (Qur'an 74:38). Hefyd mae'n dweud: ...Felly y derbyniodd eu Harglwydd eu gweddïau, (gan ddweud): Fyddaf i ddim yn dioddef i waith un ohonoch chi gael ei golli, boed wryw neu fenyw. (Qur'an 3: 195).

Hefyd, i gefnogi hyn, mae'r Qur'an yn dangos yn eglur mai rhannu rhwng dau hanner y gymdeithas yw priodas, ac mai ei hamcanion yw lles emosiynol a chytgord ysbrydol. Yn ôl Cyfraith Islamaidd, dydy menywod ddim yn gallu cael eu gorfodi i briodi unrhyw un heb roi eu caniatâd.

Yn ogystal, mewn priodas mae gan y ddau hawliau cyfartal ar y naill a'r llall, heblaw am un cyfrifoldeb, sef arweinyddiaeth, sef rôl y dyn, er yn eironig, y fam sy'n gyfrifol am y teulu. Dydy rôl arweinyddiaeth dyn mewn perthynas â'i deulu ddim yn golygu mai unben yw'r gŵr. Mae Islam yn pwysleisio pwysigrwydd cymryd cyngor a bod y naill a'r llall yn cytuno wrth wneud penderfyniadau teuluol felly mae'n fwy o bartneriaeth. Pan fydd dyn yn disgwyl i'w wraig wneud unrhyw beth sy'n groes i ewyllys Duw mae ganddi hawl i'w wrthod. Un Meistr yn unig sydd gan fenyw Fwslimaidd, sef Duw. Os nad yw ei gŵr yn cynrychioli ewyllys Duw, mae'r cytundeb priodasol wedi'i dorri.

O ran hawl y fenyw i chwilio am waith, dylid dweud yn gyntaf fod Islam yn ystyried mai ei rôl yn y gymdeithas fel mam a gwraig yw'r un fwyaf sanctaidd a hanfodol. Ond, does dim archddyfarniad mewn

Islam sy'n gwahardd menyw rhag chwilio am waith ac felly mae ganddi'r un hawl â dynion.

Er nad yw'r Qur'an yn dweud unrhyw beth penodol, mae rhai ffynonellau Islamaidd yn awgrymu nad yw tystiolaeth menyw mewn llys ond yn werth hanner tystiolaeth dyn. Mae'r ysgolhaig Maqsood yn dadlau y dylid cymhwyso'r dyfarniad hwn mewn amgylchiadau lle mae menyw'n annysgedig yn unig: felly, mae menyw sydd â'r un cymwysterau â dyn yr un mor bwysig ag ef fel tyst.

Mae'r Qur'an yn cyfeirio at bob Mwslim, ac ar y cyfan dydy e ddim yn gwahaniaethu rhwng gwryw a benyw. Mae'n dweud bod dyn a menyw, 'wedi'u creu o un enaid', a'u bod yn gydradd yn foisol yng ngolwg Duw.

Er y gellid dadlau fod ysbryd Islam yn amlwg yn batriarchaidd, mae'n ystyried bod dynion a menywod yn gydradd yn foisol. Mae Islam yn annog matriarchaeth ac er efallai nad yw menywod yn gydradd o ran diffiniad ffeministiaid y Gorllewin, mae eu statws unigryw yn cael ei gydnabod, ac mae ganddyn nhw eu hawliau eu hunain nad oes gan ddynion.

Adborth:

Mae hwn yn ymdrech teg i werthuso. Er ei fod yn cydnabod bod amrywiaeth o safbwyntiau o fewn Islam, mae'r ddadl yn cyfyngu ei hun oherwydd nad yw'n gallu archwilio mater rôl a statws yn fwy manwl. Mewn gwirionedd, y cyfan y mae'n ei wneud yw amddiffyn Islam yn erbyn meysydd amrywiol y gallai rhywun ystyried eu bod yn cefnogi'r gosodiad. Hefyd does dim llawer o gefnogaeth ysgolheigaidd yma. Mae'r adnodau o'r Qur'ân yn cael eu defnyddio'n dda i ddechrau ond ar ôl hyn, cyfeiriadau cyffredinol at y Qur'an sydd. Dydy'r casgliad ddim yn dilyn o'r ddadl ac mae'n cydnabod gwendid 'ymddangosiadol' fel yr wrthddadl yn unig.

Cwestiwn 1

'Mae'r ddysgeidiaeth ar ysgariad mewn Islam yn gwrth-ddweud y pwysigrwydd sy'n cael ei roi ar fywyd teuluol.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.

Ateb 1

Mae pawb i fod yn briod mewn Islam oni bai eu bod nhw'n methu gwneud hynny'n ariannol neu os nad yw hi'n bosibl yn gorfforol. Mae priodas yn cael ei hannog oherwydd ei bod yn hanfodol, mae'n rhoi sefydlogrwydd i'r teulu estynedig ehangach a hefyd mae'n gontract sanctaidd. Mae'r contract yn clymu nid yn unig dau unigolyn ond hefyd dau deulu. Gan ei fod yn gwllwm sanctaidd, mae torri hyn drwy ysgariad yn cael ei weld yn 'geryddadwy' ond NID yw'n bechod. Serch hynny, mae'n gwrth-ddweud y pwysigrwydd sy'n cael ei roi ar fywyd teuluol.

Mae hi'n bosibl gweld pwysigrwydd y teulu hefyd o'r rolau a'r cyfrifoldebau eglur sydd gan y fam a'r tad. Yn y briodas, mae gan ddynion a menywod gyfrifoldebau eglur er bod y rolau'n gyflenwol a'u bod yn creu partneriaeth ddelfrydol o gryfder a sefydlogrwydd. Yn ogystal â bod yn wraig ac yn fam, mae'r

fenyw'n rheoli'r tî ac yn goruchwyllo addysg grefyddol a moesol plant. Rôl y dyn yw bod yn wyneb cyhoeddus y teulu mewn gwirionedd, ymdrin â materion y tu allan i'r teulu fel cefnogi ac amddiffyn. Mae hyn yn creu uned gref, gydlynol, ac os yw hon yn torri i lawr mae'n herio'r egwyddorion Islamaidd canolog y mae hi'n bwriadu eu hyrwyddo. Felly, mae ysgariad yn gwrth-ddweud y pwysigrwydd sy'n cael ei roi ar fywyd teuluol mewn Islam.

Ond, gellid dadlau bod gweithred ysgariad ei hun, yn amlygu'n uniongyrchol bwysigrwydd bywyd teuluol mewn ystyr ehangach. Er mai ysgariad 'o'r holl bethau sy'n cael eu caniatáu, yw'r mwyaf atgas gan Dduw' yn ôl Hadith (Dawud), pan fydd hi'n ymddangos bod priodas yn methu, bydd rhywun oddi mewn i'r gymuned Fwslimaidd yn ymyrryd er mwyn ceisio cael cymod. Mae hyn oherwydd bod y teulu mewn Islam nid yn deulu uniongyrchol yn unig sef gŵr, gwraig a phlant ond hefyd mae'n uned estynedig mewn dwy ffordd: y teulu estynedig; a'r ummah. Felly, mae'n bwysig fod y teulu ehangach yn ymwneud â cheisio cael cymod ac felly diben y gwrth-ddweud ymddangosiadol yw cadarnhau diben y teulu mewn Islam, hynny yw, cefnogi eich gilydd bob amser.

Mae ffyrdd gwahanol wedi bod o gael ysgariad yn y gymdeithas Islamaidd. Weithiau mae'r dyn yn cyhoeddi ysgariad o unwaith i dair gwaith (unwaith y mis) ond mae cyfnod aros o dri mis ('Iddah). Ond, mewn gwirionedd mae'r syniad bod cyhoeddi ysgariad 3 gwaith yn unig er mwyn iddo ddigwydd yn syth yn cael ei ystyried yn bechadurus, er nad yw'n anghyfreithlon, ac felly, yn anaml iawn y mae'n digwydd yn ymarferol. Byddai'r ffordd ymddangosiadol hawdd hon o gael ysgariad yn edrych fel petai'n gwrth-ddweud dysgeidiaeth Islamaidd ar bwysigrwydd y teulu. Serch hynny, mae'r ddadl hon yn cael ei gwanhau pan fydd amodau ysgariad, cyn ac wedyn, yn cael eu hystyried, fel sicrhau nad yw menywod a phlant yn dioddef caledi ym mhob achos. Unwaith eto, er ei fod yn ymddangos fel petai'n mynd yn groes i ddysgeidiaeth Islamaidd am bwysigrwydd y teulu, mae'r amodau hyn yn sicrhau unwaith eto bod aelodau'r teulu'n cael eu cefnogi.

I grynhoi, byddai hi'n ymddangos bod cysylltiad rhwng ffyniant a lles y gymdeithas ac a yw'r uned deuluol yn gryf ac yn unedig ai peidio, yn uniongyrchol ond wedyn y tu hwnt i hyn i'r teulu estynedig a'r ummah ehangach. Efallai ei bod hi'n ymddangos bod ysgariad yn gwrth-ddweud hyn ar y naill law, ond ar y llaw arall, mae achos cryf dros y farn fod y ffordd y mae ysgariad yn cael ei weithredu'n sicr yn tanlinellu pwysigrwydd bywyd teuluol mewn Islam.

Ateb 2

I gefnogi'r datganiad, mae camsyniad poblogaidd fod dyn yn gallu cael gwared ar ei wraig drwy gyhoeddi ei fod yn ei hysgaru hi. Ond nid yw pethau mor syml â hynny. Yn wir, mae'r Qur'an, Sura (2:234-238) ymysg lleoedd eraill, yn dweud yn eglur fod trefnau i'w dilyn yn ymarferol cyn ac ar ôl ysgariad. Yn wir, byddai llawer o Fwslimiaid yn dweud mai oherwydd y ffocws ar fywyd teuluol mewn Islam y mae'r gyfradd ysgaru o fewn Islam mor isel.

Yn bennaf oll, ysgariad 'o'r holl bethau sy'n cael eu caniatáu, yw'r mwyaf atgas gan Dduw' yn ôl Hadith (Dawud). Bob amser, pan fydd hi'n ymddangos bod priodas yn methu, mae canolwr yn cael ei benodi ac mae'n ceisio cael cymod. Ond, fel awgryma Esposito, 'roedd y ddelfryd Islamaidd yn aml yn cael ei

chyfaddawdu gan realiti cymdeithasol' ac felly sefydlodd y Qur'an a shari'a egwyddorion sy'n adlewyrchu'r angen am ysgariad. Felly, gellir gweld hyn fel ffordd ymarferol o atal niwed pellach i fywyd teuluol yn hytrach na'i fod yn gwrth-ddweud ei bwysigrwydd.

Pan fydd ysgariad yn cael ei gychwyn, y dyn sydd fel arfer yn gwneud hyn a talaaq yw'r enw ar hyn. Gall cyhoeddiad cychwynol y gŵr fod yn un llafar neu'n un ysgrifenedig, ond ar ôl iddo gael ei wneud, rhaid bod cyfnod aros o dri mis ('Iddah). Yn ystod y cyfnod aros hwn does dim hawl cael cyfathrach rywiol a rhaid i'r gŵr a'r wraig fyw o dan yr un to.

Mae'r cyfnod aros yn helpu i atal pobl rhag ysgaru ar frys oherwydd dicter ac mae'n rhoi amser i'r ddwy ochr ailystyried, yn ogystal â gweld a yw'r wraig yn feichiog. Os yw'r wraig yn feichiog, mae'r cyfnod aros yn cael ei estyn tan y bydd hi'n cael y baban. Ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwn, mae gan y gŵr a'r wraig hawl i ailgydio yn eu perthynas briodasol; felly byddan nhw'n dod â'r broses ysgaru i ben. Yn ystod y cyfnod aros hwn, mae'r gŵr yn parhau i fod yn gyfrifol yn ariannol am gynnal ei wraig.

Khul' yw'r enw ar yr ysgariad y mae'r wraig yn ei gychwyn (os nad y gŵr sydd ar fai) ac mae'n rhaid i'r wraig ddychwelyd ei gwaddol i ddod â'r briodas i ben oherwydd hi yw'r un sy'n 'torri'r contract'. Yn achos talaaq, pan fydd y dyn yn 'torri'r contract', rhaid iddo dalu'r gwaddol yn llawn mewn achosion lle roedd wedi'i ohirio'n llawn neu'n rhannol, neu mae'n rhaid iddo adael i'r wraig gadw'r cyfan os yw hi wedi'i gael yn llawn.

Ateb 3

Mae bywyd teuluol yn bwysig iawn mewn Islam. Dyma 'gonglfaen' Islam. Mae un ysgolhaig wedi dadlau ei fod yn fodel microcosmig o'r ummah macrocosmig! Felly mae ysgariad, oherwydd ei fod yn chwalu'r teulu, yn amlwg yn gwrth-ddweud hyn.

I gefnogi hyn gallwn edrych ar rolau gwahanol dynion a menywod. Rôl draddodiadol dyn yw darparu ar gyfer y teulu a'i amddiffyn. Rôl y fenyw yw bod yn fam, magu plant, rheoli'r tŷ ac, addysgu'r plant yn ffyrdd Islam. Mae tynnu unrhyw un o'r elfennau hyn yn gwrth-ddweud y pwysigrwydd sy'n cael ei roi ar fywyd teuluol mewn Islam.

Ffordd arall y mae ysgariad yn gwrth-ddweud y pwysigrwydd sy'n cael ei roi ar fywyd teuluol mewn Islam yw oherwydd ei fod yn annog rhywun i feddwl am ei anghenion ei hun cyn anghenion pobl eraill. Does bosib y byddai person crefyddol yn gallu datrys eu gwahaniaethau a chynnal eu llwon. Mae torri'r llwon yn dangos gwendid moesol a dim ond niweidio bywyd teuluol y gall hyn ei wneud.

Rwy'n credu bod ysgariad yn anghywir oherwydd sut gallwch chi gael undod heb deulu. Yn y pen draw mae'n bygwth y gymuned Islamaidd.

Cwestiwn 2

'Fyddai Islam ddim yn gweithio petai pwysigrwydd bywyd teuluol ddim yn cael ei gydnabod.'

Gwerthuswch y gosodiad hwn.

Ateb 1

Mewn Islam, y teulu yw congfaen y system gymdeithasol; ond mae'n bwysig egluro at beth mae'r term 'teulu' yn cyfeirio. Mewn Islam gall gyfeirio at aelodau'r teulu uniongyrchol fel y fam, y tad, a'r plant; neu at y teulu estynedig o fodrybedd, ewythrod a thad-cu a mam-gu/taid a nain; ac yn olaf, mae'n ymestyn i'r gymuned Fwslimaidd gyfan o gredinwyr ledled y byd, sef yr Ummah. Felly, o'r dechrau'n deg, gellir gweld sut mae Islam yn 'gweithio' yn ôl egwyddorion perthyn i deulu.

Nid trefniant o bobl ar hap neu ddigymell yw teulu, ond sefydliad wedi'i ordeinio'n ddwyfol sy'n cael ei gydnabod yn y Qur'an. Er enghraifft, mae Sura 5:56 yn dweud, 'O ran y rhai sy'n troi (am gyfeillgarwch) at Allah, Ei Negesydd ac at (gyfeillach) â'r credinwyr, - yn sicr rhaid i gyfeillach ag Allah fod yn drech na'r rhain'. Felly dymuniad Allah yw bod Islam yn 'gweithio' orau pan fydd y teulu o gredinwyr ledled y byd yn cael ei gydnabod.

Byddai rhai'n mynd cyn belled ag awgrymu bod a wnelo cynnydd a lles cymdeithas, neu pan fydd hynny'n torri i lawr, yn uniongyrchol â chryfder ac undeb y teulu, neu â'i wendid, a bod cynnydd a lles cymdeithas yn dibynnu ar hynny. Yn gysylltiedig â hyn mae hi'n amlwg mai cyfraith deuluol Islamaidd yw 80% o gyfraith shari'ah a'i fod yn sefydlu lleiafswm hawliau sylfaenol er mwyn sicrhau buddiannau pob aelod o'r teulu. Felly, yn sail i weithrediadau'r system wleidyddol, gymdeithasol a chrefyddol Islamaidd mae'r pwyslais ar y teulu, sy'n cefnogi'r gosodiad.

Ar ei lefel sylfaenol iawn, gellid awgrymu bod pwysigrwydd y teulu mewn Islam yn dod o'r swyddogaeth sydd iddo o ran cadw'r hil ddynol drwy atgenhedlu ond hefyd, mae'n gyfrifol am ddiogelu moesau'r gymdeithas ac unigolion. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd gan y teulu rôl bwysig wrth gymdeithasoli plant a chyfeirio eu gwerthoedd, ac wrth roi diogelwch cymdeithasol ac economaidd. Mae Islam yn 'gweithio' orau pan gaiff hyn ei gydnabod.

Yn olaf, mae gan ddelfryd creu teulu fanteision pellgyrhaeddol i'r gymdeithas yn gyffredinol yn yr ystyr fod hyn yn ysgogi unigolion i weithio'n galed, i aberthu eu lles eu hunain, ac i ddod yn haelionus er lles eu teulu ac i ddod drwy hyn yn fwy 'ymwybodol o bobl eraill'.

Er gwaethaf hyn i gyd, byddai rhai'n dweud nad y teulu yw'r unig beth sy'n gwneud i Islam 'weithio'. Yr achos cyntaf amlwg yw'r datguddiad a ddaeth oddi wrth Allah ar ffurf y Qur'an ac oherwydd hyn y mae Islam yn bodoli ac yn gweithredu fel crefydd heddiw. Mae hyd yn oed y rhai sy'n rhoi pwys ar y teulu'n cydnabod hyn ac yn ildio, fel Fernea sy'n ysgrifennu, 'Os mai'r Qur'an yw enaid Islam, yna efallai gellid disgrifio sefydliad y teulu Mwslimaidd fel ei chorff'. Mae Esposito yn adleisio hyn wrth ysgrifennu, 'I Fwslimiaid, Llyfr Duw yw'r Qur'an. Dyma air tragwyddol, nas crëwyd, llythrennol Duw a anfonwyd i lawr o'r nefoedd, a gafodd ei ddatgelu am y tro olaf un i'r Proffwyd Muhammad yn ganllaw i'r ddynolryw.'

Hefyd mae elfennau eraill o Islam sy'n bwysig. Er enghraifft, mae Pileri Islam yn sylfaenol i arfer Islamaidd a'r chwe chred yw hanfodion y gred Fwslimaidd. Mewn gwirionedd, mae'n wir na fyddai Islam yn 'gweithio' heb y rhain. Er enghraifft, mae Richard Gray yn ysgrifennu am y Shahadah, 'Shahadah yw'r datganiad ffydd eithaf i Islam. Mae'n fwy na chred neu ddatganiad cred. Nid mater o gred bersonol yn unig yw hi, ond yn hytrach dystiolaeth gyhoeddus o'r gwirionedd. Yn y bôn, gweithred yw hi.' Ychwanega Colin Turner, 'mae'n rheidrwydd ar bob Mwslim, os yw wedi'i 'eni'n Fwslimiad' neu wedi cael 'tröedigaeth', i wneud i'r Shahada fod yn rhan o'i gyfansoddiad meddyliol.' Felly dydy hi ddim yn bosibl anwybyddu agweddau fel hyn ar Islam ac yn sicr dydy hi ddim yn bosibl eu gweld fel pethau eilradd i ddysgeidiaeth Islamaidd am y teulu.

Efallai mai'r casgliad gorau fyddai dweud bod sylfaen y teulu mewn cred ac arferion Islamaidd a'i bod hi'n bosibl cefnogi'r gosodiad os ychwanegwn ni'r ymadrodd, 'oherwydd bod delfryd y teulu'n cynnwys pob dysgeidiaeth ac arfer sy'n gysylltiedig ag Islam'. Neu fel arall, os yw'r teulu'n cael ei ddiffinio fel yr ummah, yna mae hi hyd yn oed yn haws cefnogi'r gosodiad oherwydd, yn y bôn, mae'r teulu'n union yr un fath ag Islam!

Ateb 2

Y teulu yw sylfaen Islam. Dywed Sura 17:23, 'byddwch yn garedig wrth eich rhieni. Os yw un neu'r ddau ohonyn nhw'n cyrraedd henaint yn eich gofal, peidiwch byth â dweud gair wrthyn nhw (sy'n awgrymu) ffeidd-dod, na'u dwrdio nhw, ond siaradwch yn barchus â nhw'. Mae hyn yn dangos sut mae'r teulu'n hanfodol er mwyn i Islam weithio.

Ysgrifenna'r Athro Badawi, 'Mae'r Qur'an yn dangos yn eglur mai rhannu rhwng dau hanner y gymdeithas yw priodas, ac mai ei hamcanion, heblaw am barhau bywyd dynol, yw lles emosiynol a chytgord ysbrydol. Cariad a thrugaredd yw ei sylfeini.' Mae priodas yn gwneud teulu ac felly mae hyn yn bwysig hefyd.

Dywed Sura 52:21 fod teuluoedd yn bwysig i Islam. 'A'r rhai sy'n credu ac y mae eu teuluoedd yn eu dilyn nhw yn y Ffydd – iddyn nhw y byddwn Ni'n uno eu teuluoedd: Ni fyddwn Ni chwaith yn eu hamddifadu (o ffrwythau) o unrhyw ran o'u gweithredoedd: (Eto) mae pob unigolyn yn rhoi ernes am ei weithredoedd' ac felly hefyd Sura 5:56 sy'n dweud, 'O ran y rhai sy'n troi (am gyfeillgarwch) at Allah, Ei Negesydd ac at (gyfeillach) â'r credinwyr, – yn sicr rhaid i gyfeillach ag Allah fod yn drech na'r rhain.'

Mae hyn i gyd yn dangos na fydd Islam yn gweithio heb y teulu, ac mae'r ysgrifennwr Fernea yn cefnogi hyn wrth ddadlau, 'Os mai'r Qur'an yw enaid Islam, yna efallai gellid disgrifio sefydliad y teulu Mwslimaidd fel ei chorff'.

Ar y llaw arall dywed Sura 4:36, 'Gwasanaethwch Allah, a pheidiwch ag uno unrhyw bartneriaid ag Ef; a gwnewch ddaioni – i rieni, i berthnasau, i rai amddifad, i rai mewn angen, i gymdogion sy'n agos, i gymdogion sy'n ddieithriaid, i'r cydymaith wrth eich ochr, i'r teithiwr (yr ydych chi'n cwrdd ag ef), ac i'r hyn sy'n eiddo i'ch llaw dde: Oherwydd nid yw Allah yn caru'r person haerllug, y person ymffrostgar' sy'n dangos bod pawb ac nid y teulu'n unig yn bwysig er mwyn i Islam weithio. Mewn gwirionedd, gallai rhywun ddod i'r casgliad mai Allah sy'n gwneud i Islam weithio ac felly bydd bob amser yn gweithio beth bynnag am unrhyw beth arall.

Ateb 3

Gellid dadlau na fydd Islam yn goroesi os yw'r teulu'n chwalu. Yn y Gorllewin rydyn ni'n gweld llawer o ddiffyg parch i'r teulu. Yn y cyfryngau mae storïau am ysgaru, godinebu a cham-drin plant. Mae'r achosion dychrynlyd hyn yn dangos y bydd cymdeithas nad yw'n cael ei rhedeg yn dda yn mynd yn anrhefn.

Mae'r teulu'n hanfodol i Islam. Dydy ysgariad ddim yn cael ei hoffi a dyna pam mae bywyd teuluol a'i bwysigrwydd yn cael eu cydnabod. Mae'r ddadl hon yn dangos na fyddai Islam yn gweithredu neu'n goroesi fel y byddai Muhammad eisiau iddi wneud heb gydnabod y teulu.

Eto hefyd, mae Islam yn gweithio yn y gymdeithas Orllewinol. Mae llawer o gymunedau Mwslimaidd ac maen nhw'n pwysleisio pwysigrwydd y teulu ac felly mae Islam yn goroesi ac yn ffynnu. Yn wir, mae'n lledaenu ymhellach wrth i fwy a mwy o bobl bob dydd fynd i mewn i deulu Islam.

Mae hynny'n beth arall. Yr Ummah yw teulu Islam. Brawdoliaeth yw ystyr hyn ac mae 'brodyr' yn deulu felly mae'n gywir mewn un ystyr na fyddai Islam yn gallu gweithio heb gydnabod pwysigrwydd bywyd teuluol. Teulu mawr yw Mwslimiaid yn ôl yr Ummah.

Mae ysgolheigion yn dadlau bod Islam wedi'i hordeinio gan Allah ac felly mae'n gallu cael ei hymarfer mewn unrhyw le a byddai'n gweithio mewn unrhyw le. Felly, yn yr achos hwn mae'r gosodiad yn anghywir.